






Polisi a Materion Cyhoeddus

Policy and Public Affairs





Dan arweiniad y Pennaeth Gweithrediadau, mae'r tîm hwn yn cynnwys pedwar Swyddog Polisi a Swyddog Materion Cyhoeddus. Mae'r tîm yn ceisio sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cyflenwi i holl blant a phobl ifanc Cymru mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys ymateb i ddeddfwriaeth arfaethedig yn Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymatebwyd hefyd i ymgynghoriadau ar ganllawiau a rheoliadau newydd neu ddiwygiedig a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae swyddogion yn y tîm hwn hefyd yn gyfrifol am fonitro'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd yn flaenorol, gan gynnwys 'Bywyd Llawn Gofal' a 'Lleisiau Coll'. Drwy fonitro'r argymhellion mae'r tîm yn ceisio sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith yn llawn ac yn arwain at newidiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Led by the Head of Operations, this team consists of four Policy Officers and a Public Affairs Officer. The team seeks to ensure that children's rights are delivered to all children and young people in Wales in a number of ways including responding to proposed legislation in both the UK Parliament and the National Assembly for Wales (NAfW). They also respond to consultations on new or revised guidance and regulations produced by the Welsh Government.

Officers within this team are also responsible for monitoring the recommendations previously made by the Commissioner, including 'Full of Care' and 'Missing Voices'. By monitoring the recommendations, the team seeks to ensure that the recommendations are fully implemented and lead to positive changes for children and young people.

Maeaelodau o bob swyddogaeth yn y swyddfa, gan gynnwys y Comisiynydd ei hun, yn eistedd ar weithgorau fel sylwedydd neu aelodau llawn. Eleni bu'r staff yn rhan o 50 gweithgor. Yma mae'r Comisiynydd yn sôn am ei waith gyda Grŵp Cydlynau Strategol Ymgyrch Pallial:

Members of every function within the office, including the Commissioner himself, sit as observer or full members of working groups. This year, staff took part in 50 working groups. Here, the Commissioner talks about his involvement with the Strategic Coordinating Group for Operation Pallial:

Mae Ymgyrch Pallial, sy'n ymchwiliad gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i honiadau diweddar o gam-drin hanesyddol yn y system gofal yng ngogledd Cymru, wedi parhau â'i waith. Dechreuodd ym mis Tachwedd 2012 ar gais Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Rwyf i wedi cadw fy ymglymiad â'r Grŵp Cydlynau Strategol, neu Gomand Aur Ymgyrch Pallial ac mae fy swyddogion yn parhau i gynnig cyngor a chymorth i aelodau o'r cyhoedd. Rwyf i'n falch fod cynifer o bobl wedi cysylltu ag Ymgyrch Pallial gyda chwynion a bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Yn fy Adroddiad Blynnyddol diwethaf fe amlinellais i fy nymuniad i sicrhau bod y cymorth cywir, gan gynnwys cynghori, yn cael ei sefydlu i helpu'r sawl sydd ei angen. Rwyf i'n falch iawn i weld yr ymateb amlasantiaethol a hoffwn dalu teyrned yn benodol i awdurdodau lleol Gogledd Cymru sydd wedi cydlynau eu gwaith ac wedi galluogi gweithiwr cymdeithasol i weithio ochr yn ochr â swyddogion yr heddlu. Rwyf i'n falch hefyd i weld y ffordd mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi mynd ati i sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud. Roedd hyn yn cynnwys caniatâu i newyddiadurwr o raglen BBC1 Wales 'The Wales Report' ffilmio a chyweld ag aelodau o'r Grŵp Cydlynau Strategol, uwch swyddogion Ymgyrch Pallial a Keith Bristow, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Rwyf i'n credu bod yr agwedd hon wedi helpu i godi hyder y cyhoedd i deimlo bod yr ymchwiliad yn cael ei drin yn broffesiynol a bod y dystiolaeth sy'n cael ei rhannu'n cael ei chymryd o ddifrif.

Mae gwaith Ymgyrch Pallial yn parhau a byddaf i'n cadw at fy ymrwymiad i helpu'r gwaith fel aelod o'r Grŵp Cydlynau Strategol.

Operation Pallial, a National Crime Agency (NCA) led investigation into recent allegations of historical abuse in the care system in North Wales, has continued its work. It began in November 2012 at the request of Mark Polin, Chief Constable of North Wales Police. I have maintained my involvement in the Strategic Co-ordinating Group, or Gold Command, for Operation Pallial and my officers continue to offer advice and support to members of the public. I am pleased that so many complainants have come forward to Operation Pallial and that their voices are being heard.

In my last Annual Report I outlined a concern to ensure that the right support, including counselling provision, was in place to assist those who required it. I have been very pleased with the multi-agency response and would like to pay particular tribute to local authorities in North Wales who have co-ordinated their work and supported the inclusion of a social worker to work alongside the police officers. It has also been very pleasing to see the way in which the National Crime Agency have sought to keep members of the public updated and informed about the progress being made. This included giving full access to a journalist from BBC1 Wales 'The Wales Report' to film and interview members of the Strategic Co-ordinating Group, senior officers from Operation Pallial and Keith Bristow the Director General of the NCA. This approach has I think helped to increase public confidence that the investigation is being handled in a professional manner and that the evidence being shared is being taken very seriously.

The work of Operation Pallial continues and I will maintain my commitment to support its work as a member of the Strategic Co-ordinating Group.

Enghreifftiau o waith Examples of work

2013
Ebrill
April

Mai
May

Mehefin
June

Gorffennaf
July

Awst
August

Medi
September

<p>— Cyhoeddwyd ein hadroddiad dilynol, Lleisiau Coll Cynnydd Coll, oedd yn drosolwg o gynnydd yn dilyn adolygiad statudol y Comisiynydd o eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen.</p> <p>— Cyhoeddwyd Cydsyniad ym maes Gofal Iechyd – sy'n darparu cyngor i blant a phobl ifanc dan 18 oed yng Nghymru am eu gofal iechyd a'u hawl i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hiechyd, eu gofal iechyd neu eu triniaeth.</p> <p>— Published our follow up report, Missing Voices, Missing Progress, an overview of progress following the Commissioner's statutory review of the delivery of independent professional advocacy for looked after children and young people, care leavers and children in need.</p> <p>— Issued Consent in Healthcare – providing advice for children and young people under the age of 18 in Wales about their health care and their right to be involved in decisions about their health, health care or treatment.</p>	<p>— Cyflwynwyd ymateb ysgrifenedig i ymgynghoriad Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad ar Gam 1 y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</p> <p>— Cyflwynwyd tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ar Gam 1 y Bil.</p> <p>— Cyflwynodd y Comisiynydd dystiolaeth i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad yn ystod y broses o graffu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.</p> <p>— Submitted a written response to the NAfW Health and Social Care Committee's consultation at Stage 1 of Social Services and Well-Being Bill.</p> <p>— Provided verbal evidence to the Health and Social Care Committee at Stage 1 of the Bill.</p> <p>— The Commissioner gave evidence to the NAfW Children and Young People Committee during scrutiny on the application of the Rights of Children and Young Person's Measure (Wales) 2011.</p>	<p>— Cyhoeddwyd Ar Goll ar ôl Gofal: Adroddiad Monitro 2013, oedd yn amlinellu cyflwr cyfredol gwasanaethau ôl-16 yng Nghymru i'r rhai sy'n gadael gofal.</p> <p>— Published our Lost After Care: Monitoring Report 2013, which outlined the current state of post 16 services in Wales for those leaving care.</p>	<p>— Aeth y Comisiynydd i Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a Seremoni Wobrwyd o'r Ddraig Ffynsi – Cynulliad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru.</p> <p>— Cyfrannodd ein swyddfa at Grŵp Llywio Ymgysylltu ag leuenctid y Llywydd sy'n cynghorir Cynulliad ar sut y gallai gynnwys pobl ifanc yn ei waith yn fwy effeithiol.</p> <p>— Cynhaliwyd Digwyddiad Cymru gyfan i'r Rhai sy'n Gadael Gofal yng Ngholeg yr Iwerdd, gyda thros 80 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru'n bresennol.</p> <p>— The Commissioner attended the AGM and Awards Ceremony of Funky Dragon – the National Assembly for Children and Young People in Wales.</p> <p>— Our office contributed to the Presiding Officer's Youth Engagement Steering Group to advise the National Assembly for Wales on how it can include young people in its work more effectively.</p> <p>— We hosted an All Wales Care Leavers Event at Atlantic College, attended by over 80 young people from across Wales.</p>	<p>— Roedd y Comisiynydd yn bresennol yn achlysur lansio pecyn addysgol arloesol, sy'n hybu hyfforddiant Makaton drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>— Bu aelodau o'n swyddfa yn bresennol yn y dathliad Mardi Gras Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol i hybu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Stadiwm y Mileniwm.</p> <p>— Cyfarfu'r Comisiynydd â Phenaethiaid Comisiynu, Penaeithiaid Arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru.</p> <p>— Bu'r Comisiynydd yn lansio Waliau Anweledig, prosiect arloesol yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc oedd â'r nod o atal carcharorion cyfredol a rhai sydd wedi'u rhuddhau rhag aildrosedu.</p> <p>— The Commissioner attended the launch of an innovative educational package, which promotes Makaton training through the medium of Welsh.</p> <p>— Our office attended the LGBT Mardi Gras celebration of LGBT Equality and Diversity at the Millennium Stadium.</p> <p>— The Commissioner met with the Heads of Commissioners, Heads of Inspectorates and the Wales Audit Office</p>	<p>— Cyflwynodd y Comisiynydd dystiolaeth i Gomisiwn Silk, sy'n adolygu'r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol cyfredol yng Nghymru.</p> <p>— Bu'r Comisiynydd yn bresennol yn Rhwydwaith Ombwdsmyn a Chomisiynwyr Ewrop.</p> <p>— Cyhoeddwyd briffiad i Aelodau Cynulliad ar Gam 2 y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</p> <p>— The Commissioner gave evidence to the Silk Commission, a review of the present financial and constitutional arrangements in Wales.</p> <p>— The Commissioner attended the European Network of Ombudsmen and Commissioners.</p> <p>— We issued a briefing to Assembly Members at Stage 2 of the Social Services and Well-Being Bill.</p> <p>— The Commissioner attended the launch of Invisible Walls, an innovative project in HMP & YOI Parc aimed at preventing current and released prisoners from reoffending.</p>
---	---	---	---	---	--

Enghreifftiau o waith Examples of work

Hydref
October

— Lansiwyd ein Hadroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ar gyfer 2012/13, oedd yn amlygu sut y cyflawnom ni ein rhaglen waith yn erbyn yr ymrwymiadau yn ein cynllun gwaith blynnyddol.

— Ymwelodd y Comisiynydd â'r Ganolfan Asesu Cychwynnol i Geiswyr Lloches yng Nghaerdydd sydd wedi arwain at godi pryderon yn y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a Clearsprings.

— Cyhoeddwyd ein **Hadroddiad ar Gynnydd y Strategaeth Tlodi Plant 2013**, gan egluro'r gwaith mae ein swyddfa'n ei wneud i gyfrannu at drechu tlodi plant yng Nghymru.

— Lansiwyd Sylw Cyffredinol y CU Rhif 17 ar Erthygl 31 CCUHP (ar orffwys, hamdden, chwarae, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau) gan gyfeirio at yr effaith ar blant ag anableddau.

— Cadeirodd y Comisiynydd ei ail ddigwyddiad Bwrdd Crwn ar Eiriolaeth i ddal rhanddeiliaid allweddol yn atebol ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn **Lleisiau Coll**.

Tachwedd
November

— Launched our Annual Report and Accounts for 2012/13, which highlighted how we delivered our work programme against the commitments made in our annual work plan.

— The Commissioner visited the Initial Assessment Centre for Asylum Seekers in Cardiff which has resulted in concerns being raised with the Home Office, Welsh Government and Clearsprings.

— Issued our **Child Poverty Strategy Progress Report 2013**, setting out the work our office is undertaking to contribute towards tackling child poverty in Wales.

— UN General Comment Number 17 on Article 31 of the UNCRC (on rest, leisure, play, cultural life and the arts) launched with reference to the impact on children with disabilities.

— The Commissioner chaired his second Advocacy Roundtable event to hold key stakeholders to account on progress against the recommendations in **Missing Voices**.

Rhagfyr
December

— Croesawodd ein swyddfa ymweliad gan Gomisiynydd Plant Awstralia.

— Mynychwyd digwyddiadau Kids in Museums, oedd yn derbyn cefnogaeth y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru.

— Croesawodd ein swyddfa ymweliad gan Gadeirydd Pwyllgor CCUHP, Kirsten Sandberg.

— Bu'r Comisiynydd a'n Prif Weithredwr mewn gwyl yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd i ddathlu'r Diwrnod Plant Rhyngwladol. Nod y diwrnod oedd hybu parch at blant ac amlygu hawl plant i warchodaeth gyfarfata dan y gyfraith.

— Our office hosted a visit by the Children's Commissioner for Australia.

— We attended Kids in Museums events, which were supported by the Commissioner and Welsh Government.

— Our office hosted a visit by the Chair of the UNCRC Committee, Kirsten Sandberg.

— The Commissioner and our Chief Executive attended a festival held at the Urdd Centre, Cardiff Bay to celebrate Universal Children's Day. The aim of the day was to promote respect for children and highlight children's right to equal protection under the law.

2014
Ionawr
January

— Cyhoeddwyd **Bechgyn a Merched yn Codi Llais: astudiaeth ansodol o rywedd a diwylliannau rhywiol plant**, ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd a'r NSPCC.

— Cyflwynwyd ein Hadroddiad Blynnyddol a Chyfrifon i Grŵp Seneddol Rhyng-bleidiol Plant yng Nghymru yn San Steffan, dan nawdd Jessica Morden AS.

— Cyflwynwyd ein Hadroddiad Monitro Blynnyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

— Published **Boys and Girls Speak Out: a qualitative study of children's gender and sexual cultures**, in conjunction with Cardiff University and the NSPCC.

— Presented our Annual Report and Accounts to the All-Party Parliamentary Group for Children in Wales at Westminster, sponsored by Jessica Morden MP.

— Submitted our Annual Monitoring Report to the Welsh Language Commissioner.

Chweffor / Mawrth
February / March

— Cyflwynodd y Comisiynydd dystiolaeth lafar ddiweddu mis Chweffor i'r Ymchwiliad Seneddol i weithrediad ac effeithiolrwydd y System Llysoedd Ieuenciad dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Alex Carlile.

— Roedd y Comisiynydd yn bresennol yn achlysur lansio sylw dyladwy Dinas a Sir Abertawe i'r ddyletswydd CCUHP.

— Trefnwyd digwyddiad i ranu dystiolaeth a chasglu gwybodaeth am ddarpariaeth seibiannau byr i blant ag anableddau a'u rhieni/gofalwyr.

— The Commissioner gave oral evidence in late February to the Parliamentary Inquiry into the operation and effectiveness of the Youth Court System chaired by Lord Alex Carlile.

— The Commissioner attended the launch of the City and County of Swansea's due regard to the UNCRC duty.

— We hosted an evidence exchange which gathered information about the provision of short breaks for children with disabilities and their parents/carers.

— Parhawyd â'r diwygiadau i Gynllun Hawliau Plant Drafft Llywodraeth Cymru.

— We contributed to the revisions of Welsh Government's Draft Children's Rights Scheme.

Sut mae'r tîm yn ffurffio polisi ac yn dylanwadu arno, gan Keith Towler

Mae fy nhîm yn dylanwadu ar newid systemig i blant a phobl ifanc drwy bolisi ac ymarfer mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol. Rydym ni'n monitro a yw'r llywodraeth a chyrff eraill sy'n dweud eu bod am wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yn cadw eu haddewidion. Rydym ni'n gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc ac yn rhoi llwyfan iddyn nhw ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Rydym ni'n gweithio gyda gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr a'r gymdeithas sifig ehangach i hyrwyddo hawliau a llesiant plant yn barhaus ar draws polisi, deddfwriaeth ac ymarfer.

Mae fy mlaenoriaethau polisi'n adlewyrchu'r hyn mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym ni sy'n bwysig drwy ein gwaith achos, gwaith maes ac ymchwil.

Rwyf i'n falch fod fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi ac ymarfer yn gysylltiedig â phlant a phobl ifanc yn parhau i fod yn seiliedig ar y CCUHP. Rwyf i'n credu bod ei saith nod craidd yn darparu'r fframwaith iawn ar gyfer gweithgaredd llywodraeth leol a chenedlaethol ac rwyf i'n defnyddio'r un fframwaith ar gyfer fy ngweithgareddau i ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisi.

How the team shape and influence policy, by Keith Towler

My team achieves influencing systemic change for children and young people through policy and practice in a range of different ways. We monitor whether government and other organisations who say that they are going to make a difference to children and young people's lives keep their promises. We listen to children and young people's voices and give them a platform to influence policy and practice. We work with policy makers, practitioners and wider civil society to constantly promote children's rights and welfare across policy, legislation and practice.

My policy priorities reflect what children and young people tell us is important to them through our casework, fieldwork and research.

I am pleased that the Welsh Government's framework for children and young people's policy and practice continues to be based on the UNCRC. I think its seven core aims provide the right framework for local and national government activity and I use the same framework in my activities to influence policy development and implementation.

Ymwreiddio egwyddorion CCUHP

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol wedi dangos ymrwymiad cryf i ymwreiddio'r CCUHP yn eu gwaith. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn arbennig o arwyddocaol wrth ymwreiddio CCUHP yng nghyfraith Cymru. Eleni eglurodd Llywodraeth Cymru beth mae'n ei wneud i gefnogi'r CCRUHP yn ei chyfraniad at bumed adroddiad Parti Gwladol y DU i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Roedd yn galonogol hefyd gweld rhai awdurdodau lleol yn dangos eu hymrwymiad clir i'r CCRUHP eleni. Roeddwn i'n arbennig o falch i weld Cyngor Abertawe a Chyngor Sir Penfro yn mabwysiadu'r CCRUHP yn ffurfiol. Mae hyn yn golygu bod dyletswydd nawr yn cael ei gosod ar y ddau awdurdod i roi sylw dyledus i blant a phobl ifanc yn eu holl fuses.

Un o fy swyddogaethau allweddol yw monitor i ba raddau mae'r addewidion hyn yn cael eu cadw a herio pan fyddaf i'n credu bod cyrrf cyhoeddus yn ddiffygol.

Monitro Gweithrediad Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011

Ers 1 Mai 2012, mae dyletswydd wedi bod ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r CCRUHP wrth ddatblygu deddfwriaeth a/neu bolisiau newydd neu ddiwygig rhai cyfreol. Er mwyn cynorthwyo i sicrhau sylw dyledus, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a chafwyd engrheifftiau da o'r manteision a all ddod yn eu sgil yn ystod 2013/14. Fodd bynnag, mae'r broses yn dal i fod yn newydd ac roedd ansawdd yr asesiadau'n amrywio'n sylwedol. Mewn rhai achosion nid oedd yn glir a oedd yr asesiad wedi'i gynnal o gwbl. Roedd yn bryder arbennig nad oedd modd i mi weld yr holl asesiadau, a hefyd nad asesiad o effaith oedd rhai o'r asesiadau a welais, ond yn hytrach rhestr yn unig o erthyglau cymwys yn y Confensiwn. Rwyf i'n deall wrth gwrs ei bod hi'n ddyddiau cynnar ond fy nisgwyliad yw y bydd ansawdd yr asesiadau hyn yn gwella.

Yn ystod y flwyddyn fe gynghorais i Lywodraeth Cymru ar gamau i godi ansawdd yr Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant drwyddi draw. Hefyd bûm i'n bwyo i'r diwygiadau i'r Cynllun Hawliau Plant. Roeddwn i'n awyddus iawn i sicrhau bod yr asesiadau o effaith yn cael eu gwneud yn gyhoeddus o 2014/15.

Rwyf i'n edrych ymlaen at weld y dyletswydd i roi sylw dyledus yn cael ei ehangu i'r holl swyddogaethau Gweinidogol yn 2014/15 a byddaf yn parhau i fonitro'r gweithrediad.

Rwyf i'n galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ansawdd yr Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant y mae eisoes wedi'u cynnal gyda golwg ar gryfhau cysondeb a sicrhau ymarfer gorau.

Y Comisiynydd Plant

Yn 2001, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant. Rwyf i'n credu bod fy swyddogaeth i'n hanfodol i hyrwyddo hawliau a llesiant plant a phobl ifanc.

Mae'r profiadau a'r datblygiadau ers 2001 yn golygu bod angen cryfhau rôl y Comisiynydd Plant erbyn hyn ynghyd â sicrhau bod y trefniadau llywodraethu'n adlewyrchu datblygiadau yn ein setliad cyfansoddiadol. Mae angen symleiddio ac egluro'r clytwraith cymhleth o bwaerau a rheoliadau sy'n diffinio rôl a chylch gorchwyl y comisiynydd ar hyn o bryd, mae angen estyn cylch gorchwyl y Comisiynydd er mwyn osgoi dryswch cyhoeddus am feisydd nad ydyn nhw wedi'u datganoli, ac mae angen diweddu trefniadau penodi, cylido ac adrodd y Comisiynydd. Y llynedd fe bwysleisiais fy ngalwad am adolygiad o rôl Comisiynydd Plant Cymru.

Roeddwn i'n croesawu cyhoeddad Llywodraeth Cymru ym mis Chwefor 2014 y byddai'n comisiynu adolygiad annibynnol llawn o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru ac rwyf i'n edrych ymlaen at ymgysylltu â thîm yr adolygiad.

Embedding the UNCRC principles

The Welsh Government and National Assembly have shown a strong commitment to embedding the UNCRC into their work. The Children and Young People's Rights (Wales) Measure 2011 is particularly significant in enshrining the UNCRC in Welsh law. This year the Welsh Government set out its work in support of the UNCRC in its contribution to the 5th UK State Party report to the UN Committee on the Rights of the Child.

It was also encouraging to see some local authorities demonstrating their clear commitment to the UNCRC this year. I was particularly pleased to see Swansea Council and Pembrokeshire Council officially adopt the UNCRC. It means that a duty is now placed on both authorities to have due regard to children and young people in all their business.

One of my key roles is to monitor to what extent these promises are being kept and to challenge where I think public bodies are falling short.

Monitoring implementation of the Children and Young People's Rights Measure 2011

Since 1 May 2012, Welsh Ministers have had a duty to have due regard to the UNCRC when developing new or amending existing legislation and/or policies. To assist implementing due regard, the Welsh Government has introduced Children's Rights Impact Assessments. This is a positive development and there were good examples of the benefits these can bring during 2013/14. However, the process is still in its infancy and the quality of assessments varied considerably. In some cases it was not clear that the assessment had been undertaken at all. I was particularly concerned that I was not able to access all assessments and some of those that I did see were not an assessment of impact merely a list of articles in the Convention that applied. I realise of course that this is early days but my expectation is that the quality of these assessments will improve.

During the year I advised the Welsh Government on actions to raise the quality of Children's Rights Impact assessments across the board. I also fed into the revisions to the Children's Rights Scheme. I was particularly concerned that the impact assessments should be made public from 2014/15.

I look forward to the duty of due regard being extended to all Ministerial functions in 2014/15 and will continue to monitor implementation.

I call upon Welsh Government to review the quality of the CRIA's it has already undertaken with a view to strengthening consistency and ensuring best practice.

The Children's Commissioner

In 2001, Wales became the first country in the UK to appoint a Children's Commissioner. I believe my role is vital in promoting children and young people's rights and welfare.

Experiences and developments since 2001 mean that there is now a need to strengthen the role of the Children's Commissioner and to ensure governance arrangements reflect developments in our constitutional settlement. The complex patchwork of powers and regulations that currently define the role and remit of the commissioner need simplifying and clarifying, the remit of the Commissioner needs extending to avoid public confusion about non devolved areas, and the appointment, funding and reporting arrangements for the Commissioner need updating. Last year I reiterated my call to review the role of the Children's Commissioner for Wales.

I welcomed the Welsh Government's announcement in February 2014 that it would commission a full independent review of the role and functions of the Children's Commissioner for Wales and I look forward to engaging with the review team.

Gweledigaeth Gymreig glir a gweithredu integredig

Yn fy adroddiad blynnyddol yn 2012/13 amlinellais fy mhryder ynglŷn â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i symud at bolisiau 'oed-gynhwysol' yn hytrach na chael polisi ac ymarfer penodol ar blant a phobl ifanc, yn adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol nhw.

A derbyn y penderfyniad hwn, mae'n bwysig ein bod yn deall yr effaith mae hyn wedi'i gael ar ddarpariaeth i blant a phobl ifanc. Y llynedd dadansoddais i'r Cynnlluniau Integredig Sengl ac rwyf i'n parhau'n bryderus fod cydnabyddiaeth i anghenion penodol plant a phobl ifanc yn llai blaenllaw na phan oedd cynlluniau ar wahân yn bodoli ar gyfer plant a phobl ifanc. Roeddwn i'n siomedig mai tua thraean yn unig sy'n cynnwys cyfeiriad at y CCUHP a / neu Saith Nod Craidd Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn penderfyniad y Prif Weinidog i beidio â phenodi Gweinidog Plant, rwyf i'n awyddus iawn y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gweledigaeth strategol traws-lywodraethol ar gyfer plant a phobl ifanc ac y dylid integreiddio'r gweithredu gan gydlynu ar draws portffolios ac adrannau. Rwyf i o'r farn bendant bod angen i Lywodraeth Cymru ailddatgan ei gweledigaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd. Drwy wneud hyn, hoffwn weld y weledigaeth honno'n mynegi dull gweithredu'n seiliedig ar hawliau sy'n canolbwytio ar ymarfer ac sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i holl blant a phobl ifanc Cymru. Byddai gwneud hynny'n arwydd clir iawn bod y ddyletswydd ar Weinidogion i dalu sylw dyledus, fel y'i mynegwyd ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn dangos arweiniad sy'n clymu'r holl swyddogaethau at ddiben cyffredin.

Rwyf i'n galw ar Lywodraeth Cymru i ailddatgan ei gweledigaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd gan fynegi dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwytio ar ganlyniadau.

A clear Welsh vision and integrated action

In my 2012/13 annual report I set out my concern at the Welsh Government's decision to move to 'age inclusive' policies rather than have distinct policy and practice on children and young people, reflecting their distinct circumstances.

Given this decision, it is important that we understand the impact this has had on provision for children and young people. Last year I analysed the Single Integrated Plans and remain concerned that recognition of the distinct needs of children and young people is less prominent than when there were separate plans for children and young people. I was disappointed that only around a third include a reference to the UNCRC and / or Welsh Government's 7 Core Aims.

Following the First Minister's decision not to appoint a Minister for Children, I am concerned that the Welsh Government should maintain a cross government strategic vision for children and young people and that action should be integrated with coherence across portfolios and departments. I am of the firm view that Welsh Government do need to re-state their vision for children, young people and families. In doing so I would like to see that vision articulate a rights-based approach with a focus on practice that secures positive outcomes for all children and young people in Wales. Doing so would signal very clearly that the due regard duty on Ministers, as outlined in The Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, is a demonstration of leadership binding all functions to a common purpose.

I am calling on Welsh Government to re-state their vision for children, young people and families articulating a rights based outcome focused approach.

Nod 1. Dechrau Teg Mewn Bywyd

Plant i droseddwyr

Mae plant sydd â charcharor yn y teulu'n fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi ac mewn risg uwch o brofi canlyniadau emosiyonal, cymdeithasol ac addysgol gwael. Y llynedd fe ymwlais i â charchardai ac ysgolion i siarad gyda rhieni ac athrawon. Bûm i'n hybu prosiectau trydydd sector sydd â'r nod o gefnogi plant i droseddwyr a datblygodd fy nhîm adnodd ar hawliau plant i droseddwyr.

Rwyf i'n falch, yn dilyn fy adroddiad blynnyddol yn 2012/13, fod Llywodraeth Cymru nawr wedi cytuno i osod mesurau i sicrhau bod eu prif raglenni'n ymgysylltu â theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan garcharu rhiant.

Rwyf i'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhaglen Dechrau'n Deg yn cefnogi plant i droseddwyr.

Cymorth cyffredinol i rieni

Mae rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd pob plentyn.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o raglenni pwysig sy'n hyrwyddo llesiant plant ac yn darparu cymorth i rieni mewn grwpiau penodol neu mewn lleoliadau penodol. Roeddwn i'n falch i weld bod y rhaglen Gwasanaethau Cymorth Teuluol Integredig wedi'i chyflwyno ar draws pob rhian o Gymru y llynedd. Cafodd Dechrau'n Deg hefyd ei hehangh i gwmpasu rhagor o ardaloedd yng Nghymru.

Fodd bynnag, rwyf i'n parhau'n awyddus i sicrhau y dylai'r holl rieni a gofalwyr allu manteisio ar gymorth ac arweiniad. Mae cymorth cyffredinol i rieni yn unol ag Erthygl 31 y CCUHP, sy'n egluro hawl plentyn i orffwys, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol ac artistig. Mae hefyd yn cyd-fynd â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac â dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol a gymryd camau i atal a lleihau'r anghenion gofal a chymorth sydd gan bobl yn eu hardal o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dylai Llywodraeth Cymru osod arweiniad a chyfeiriad i gynorthwyo â chyflenwi hyn.

Rwyf i'n galw ar Lywodraeth Cymru gyhoeddi arweiniad ar gymorth cyffredinol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol.

Nod 2: Amrywiaeth o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu

Rwyf i'n falch fod Llywodraeth Cymru'n symud ymlaen gyda nifer o weithgareddau'n seiliedig ar yr argymhellion yn fy adroddiad blynnyddol yn 2012/13. Cynhalwyd ymgynghoriad ar ganllawiau diogelu mewn addysg a dylai'r rhain gael eu cyhoeddi yn 2014/15.

Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn sicrhau ymateb plentyn-ganolog i anghenion dysgu plant a phobl ifanc unigol. Bydd gan y Cod Ymarfer hefyd statws cyfreithiol digonol i ddal deliail y dyletswydd i gyfrif.

Eleni rwyf i'n falch fod Llywodraeth Cymru bellach wedi asesu 'Teithio i Ddyfodol Gwell' a'i bod yn ymrwymo i gymryd camau pellach i gefnogi anghenion dysgu plant Sipsiwn a Theithwyr erbyn mis Mawrth 2015.

Mae'r rhain yn faterion rwyf i wedi bod yn gweithio arnyn nhw ers blynnyddoedd lawer fel Comisiynydd Plant. Yn wir, rwyf i wedi adeiladu ar waith a ddechreuwyd gan fy rhagflaenydd drwy alw am welliannau i weithdrefnau diogelu mewn ysgolion. Rwyf i'n credu y bydd y newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

Eleni, rwyf i wedi cael fy hysbysu am bryderon mewn perthynas â diffyg mynediad mewn rhai ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeir olwyn, er ei bod yn ofynnol i bob ysgol fod â chynllun hygyrchedd. Gall hyn olygu bod plant yn gorfol mynychu ysgol wahanol i'w ffrindiau, a all effeithio ar y plentyn ac ar y teulu. Byddaf i'n gwneud darn o waith ar y mater hwn yn ystod y flwyddyn nesaf a byddaf yn cynnig argymhellion ar gyfer gweithredu a gwella yn hyn o beth.

Rwyf i'n galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i gael gafael ar addysg.

Aim 1. A Flying Start in Life

Children of offenders

Children with a prisoner in the family are more likely to live in poverty and are of greater risk of poor emotional, social and educational outcomes. Last year I visited prisons and schools to speak with parents and teachers. I promoted third sector projects aimed at supporting children of offenders and my team developed a resource on the rights of children of offenders.

I am pleased that, following my 2012/13 annual report, the Welsh Government has now agreed to put in place measures to ensure their flagship programmes engage with families affected by parental imprisonment.

I am calling on Welsh Government to ensure that the Flying Start programme supports children of offenders.

Universal parental support

Parents and legal guardians play a pivotal role in the life of every child.

The Welsh Government has a number of flagship programmes to promote children's welfare and provide parental support for specific groups or in specific places. I was pleased to see that the Integrated Family Support Services programme was rolled out across all parts of Wales last year. Flying Start was also extended to cover more areas in Wales.

However, I remain concerned that all parents and carers should have access to support and guidance. Universal parental support is in line with Article 31 of the UNCRC, which sets out a child's right to rest, play and take part in a range of cultural and artistic activities. It is also in line with the Children and Families (Wales) Measure 2010 and with new duties for local authorities and local health boards to take steps to prevent and reduce the needs for care and support of people in their area within the Social Services and Wellbeing Act. The Welsh Government should set out guidance and direction to support delivery.

I am calling on Welsh Government to issue guidance on universal parenting support for parents and legal guardians.

Aim 2: Access to education, training and learning opportunities

I am pleased that the Welsh Government is taking forward a number of activities based on the recommendations I set out in my 2012/13 annual report. Guidance on safeguarding in education has been consulted on and should be issued in 2014/15.

I am also hopeful that proposed reforms to the legislative framework for special education needs will secure a child-centred response to the learning needs of individual children and young people. The Code of Practice will also have sufficient legal status to hold duty bearers to account.

I am pleased that the Welsh Government has now assessed 'Travelling Ahead Towards a Better Future' and commits to further actions to support the learning needs of Gypsy and Traveller children by March 2015.

These are issues that I have been working on for many years as Children's Commissioner. Indeed, I have built on work initiated by my predecessor in calling for improvements to the safeguarding procedures within schools. I believe these changes will make a positive difference to children and young people's lives.

This year, I have been made aware of concerns in relation to a lack of access to some schools for children and young people who use a wheelchair, even though all schools are required to have an accessibility plan in place. This can result in children having to attend a different secondary school from their friends, impacting on both the child and their family. I am undertaking a piece of work on this issue during the coming year and will make recommendations for action and improvement in this regard.

I am calling on Welsh Government to address the issues facing wheelchair-using children and young people in accessing education.

Ilesiant dysgwyr

Mae fy Adroddiad ar Gynnydd y Strategaeth Tlodi Plant yn 2013 yn egluro fy ymrwymiad i hyrwyddo ymarfer da ar leihau'r bylchau mewn canlyniadau addysgol rhwng plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel a'u cyfoedion. Ym mis Medi 2013 fe hwylusais i ddigwyddiad cyfnewid tystiolaeth oedd yn gyfle i weithwyr addysg proffesiynol rannu ymarfer gyda chydweithwyr o bob rhan o Gymru. Neges grif a ddaeth o hyn oedd bod polisi cenedlaethol, gyrwyr perfformiad a phrosesau arolygu'n canolbwytio'n fawr ar gyraeiddiad heb roi digon o bwyslais ar faterion Ilesiant.

Ar y cyd, aeth yr NSPCC a fy swyddfa ati i gomisiynu Prifysgol Caerdydd i gynnal ymchwil ar ddiwylliannau rhwng plant. Amcan yr adroddiad, **Bechgyn a Merched yn Codi Llais: astudiaeth ansodol o rywedd a diwylliannau rhywiol plant (10-12 oed)**, oedd hwyluso gwaith Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Blant, Rhywioldeb, Rhywioli a Chydraddoldeb. Canfu'r ymchwil fod cydraddoldeb ac amrywiaeth a chymorth cymdeithasol ac emosiol yn hanfodol i ddatblygiad plant a phobl ifanc. Galwodd hefyd am arweiniad cenedlaethol cryf i gynnal Ilesiant plant a phobl ifanc yn yr ysgol a thu hwnt.

Y llynedd cyhoeddwyd nifer o adroddiadau dylanwadol ar y system addysg yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys Adolygiad Hill ar gyflwyno gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol a chyhoeddi canlyniadau PISA 2012. Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddatblygu cynllun gwella ysgolion newydd, gan ddatblygu llawer o'r opsiynau a dderbyniwyd yn Adolygiad Hill.

Rwyf i'n cefnogi ffocws y llywodraeth ar gyraeiddiad dysgwyr. Fodd bynnag rwyf i'n awyddus i sicrhau na ddylai hyn ddigwydd ar draul Ilesiant dysgwyr. I'r gwrthwyneb, mae'r dystiolaeth a ddangoswyd i mi yn awgrymu os ydym ni'n methu mynd i'r afael â Ilesiant dysgwyr byddwn ni'n methu â chynorthwyo rhoi o'n plant mwyaf difreintiedig i gael y graddau sydd o fewn eu cyraedd. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd gan Estyn yn 2012 hefyd yn cynnig achos cryf o blaid pwysigrwydd cefnogi Ilesiant disgyblion er mwyn sicrhau cyraeiddiad.

Rwyf i'n annog y llywodraeth i ystyried sut y gallai gwell cefnogaeth i lesiant disgyblion ategu mesurau eraill sy'n cael eu datblygu dan y cynllun gwella ysgolion. Hoffwn weld sylw dyledus i lesiant disgyblion fel rhan o'r polisi cenedlaethol a'r gyrwyr perfformiad.

Rwyf i'n galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori Ilesiant disgyblion yn ei chynllun gwella ysgolion a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y polisi cenedlaethol a'r gyrwyr perfformiad.

Learner wellbeing

My Child Poverty Strategy Progress Report 2013 sets out my commitment to promote good practice on reducing the gaps in educational outcomes between children and young people from low-income households and their peers. In September 2013 I facilitated an evidence exchange providing an opportunity for educational professionals to share practice with colleagues from across Wales. A strong message was that national policy, performance drivers and inspection processes focus heavily on attainment and do not give due weight to wellbeing issues.

